

Adolygiad o chwarae yng Nghymru

Yr hyn mae'n ei olygu i blant a phobl ifanc

Mae cael digon o gyfleoedd i chwarae a chwrrd â'u ffrindiau bob dydd yn rhan bwysig o iechyd a hapusrwydd plant a phobl ifanc yng Nghymru.

Mae gan bob plentyn a pherson ifanc hawl i chwarae a chwrrd â'u ffrindiau. Mae hyn yn cael ei gydnabod yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).

Daeth Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae Llywodraeth Cymru â grŵp o oedolion at ei gilydd sy'n credu yn rhyddid plant a phobl ifanc i chwarae a chymdeithasu.

Yn ein hadolygiad fe wnaethom dynnu sylw at bethau sy'n mynd ar draws chwarae, fel:

- **Traffig a chymdogaethau prysur**
- **Ofnau rhieni**
- **Peidio cael digon o amser i chwarae**
- **Oedolion sydd ddim yn hoffi cael plant a phobl ifanc o gwmpas neu'n cadw sŵn.**

Fe feddylion ni am syniadau am bethau y gallai Llywodraeth Cymru eu gwneud i'w gwneud hi'n haws i chi chwarae a chymdeithasu.

Cafodd plant a phobl ifanc eu gwahodd i rannu eu sylwadau fel rhan o'r adolygiad hefyd. Cafodd hyn ei wneud gan Blant yng Nghymru, trwy eu prosiect Cymru Ifanc.

Cynllunio ar gyfer chwarae



Dyweddodd y plant a'r bobl ifanc:

- Mae'n bwysig bod oedolion yn deall bod chwarae'n dda ar gyfer plant a phobl ifanc o bob oed.
- Mae cludiant yn gallu ei gwneud yn anodd ichi gyrraedd manau ble gallwch chi chwarae.
- Fe hoffech chi fod yn rhan o gynllunio gwasanaethau chwarae.



Rydym yn gofyn i Lywodraeth Cymru wneud yn siŵr...

- Bod pawb sy'n gweithio yn y llywodraeth yn deall chwarae ac yn cofio ei ystyried pan fyddan nhw'n creu cynlluniau a deddfau newydd.
- Bod pobl yn y llywodraeth yn deall beth sy'n eich atal rhag chwarae a chreu cynlluniau i wella pethau, yn enwedig ar ôl Covid.
- Bod pobl yn y llywodraeth yn edrych ar ffyrdd o ddarparu mwy o arian ar gyfer y gwasanaethau sy'n cefnogi eich chwarae.

Lle i chwarae a chymdeithasu



Dyweddodd y plant a'r bobl ifanc:

- Eich hoff lle i chwarae yw'r tu allan ac rydych am dreulio mwy o amser yn chwarae'r tu allan ger eich cartrefi.
- Mae rhai oedolion ddim yn hoffi pobl ifanc yn crwydro ar hyd y lle.
- Rydych eisiau manau i fynd iddyn nhw sy'n gwneud ichi deimlo'n hapus a diogel.



Rydym yn gofyn i Lywodraeth Cymru wneud yn siŵr...

- Bod pawb sy'n rhan o gynllunio ac adeiladu'r manau y mae pobl yn byw ynddynt yn gwrando ar eich syniadau.
- Bod pawb sy'n rhan o gynllunio manau y mae pobl yn byw ynddynt yn meddwl am sut i'w gwneud hi'n bosibl ichi chwarae mwy yn agos i'ch cartrefi.
- Y dylech gael y cyfle i roi eich barn ar chwarae a chymdeithasu ble rydych yn byw.

Gweithwyr chwarae a phobl sy'n gweithio gyda phlant



Dyweddodd y plant a'r bobl ifanc:

- Rydych chi'n meddwl y dylai pob darpariaeth ar gyfer plant gael eu gwirio i wneud yn siŵr eu bod yn dda.
- Dylai gweithwyr chwarae gael eu hyfforddi i wneud eu gwaith.
- Dylai oedolion gael eu gwirio i wneud yn siŵr ei bod hi'n iawn iddyn nhw weithio gyda chi.



Rydym yn gofyn i Lywodraeth Cymru wneud yn siŵr...

- Bod pawb sy'n darparu gwasanaethau gwaith chwarae ar eich cyfer (fel cynlluniau chwarae a chlybiau ar ôl ysgol) yn eich cadw'n ddiogel.
- Bod hyfforddiant ar gael i'r bobl sy'n darparu gwasanaethau gwaith chwarae ar gyfer plant a phobl ifanc.
- Bod gwasanaethau gwaith chwarae'n cael eu gwirio gan y llywodraeth i wneud yn siŵr eu bod yn ddigon da.

Chwarae mewn ysgolion



Dyweddodd y plant a'r bobl ifanc:

- Mae ysgolion yn fannau pwysig ichi chwarae a chwrrd â'ch ffrindiau.
- Mae chwarae'n bwysig i bob oed, nid dim ond i blant ysgol gynradd.
- Dylai ysgolion wneud mwy o amser ar gyfer chwarae.



Rydym yn gofyn i Lywodraeth Cymru wneud yn siŵr...

- Bod rhieni, gofawyr ac oedolion eraill yn derbyn gwybodaeth am bwysigrwydd chwarae.
- Bod ysgolion yn gwarchod amser egwyl a gwneud yn siŵr bod digon o amser a lle i chwarae.
- Bod ysgolion uwchradd yn gwneud yn siŵr bod plant hŷn yn cael digon o amser i gwrdd a chymdeithasu gyda ffrindiau.

Cyn diwedd 2023, bydd Llywodraeth Cymru'n cynhyrchu cynllun am sut y gallen nhw gyflawni'r pethau yma.

Mae'r Grŵp Llywio yn disgwyl i hyn wneud pethau'n well ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru, fydd yn rhoi mwy o amser a manau ichi chwarae a chwrrd gyda'ch ffrindiau.